

Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan y sefydliad cenedlaethol dros chwarae **Gwanwyn 2010**



www.chwaraecymru.org.uk

CHWARAE –
ydyn ni'n cwrdd
â'r mesur?



Cynnwys

tudalen

Golygyddol	2
Newyddion	3-5
Ein Lle Ni Hefyd	6-9
Adroddiad 'People Make Play'	10-11
Datblygu'r Gweithlu	12-13
Digwyddiadau ac Aelodaeth	14

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan Chwarae Cymru dair gwaith y flwyddyn.

Cysylltwch â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Tŷ Baltig,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd CF10 5FH

Rhif ffôn: 029 2048 6050
E-bost: gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif. 1068926

ISSN: 1755 9243

Nid barn Chwarae Cymru o reidrydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardystio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur a gynhyrchwyd o goedwigoedd cynaliadwy.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick
Ffôn: 01443 843 520
E-bost: sales@carrickdp.co.uk

Golygyddol

Mae ein Mesur cyfreithiol Cymreig newydd sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i archwilio a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn cynnig cyfle unigryw inni – y posibilrwydd o newid yr amgylchedd ar gyfer plant a phobl ifainc yng Nghymru.

Dywedodd Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog newydd dros Blant, ei fod yn chwilio am ddyfeisgarwch. Ond daw risg yn sgîl y Mesur; y perygl y byddwn yn siomi plant trwy gyfyngu ein hunain i hen ffyrdd o feddwl ac o weithredu. Yr un hen ffordd ystradebol sydd wedi ein harwain i ble rydym ni heddiw – ble fo plant yn tyfu'n llai a llai gweladwy, yn cael eu cadw yn y tŷ fwyfwy, yn llai hyderus ynghylch bod y tu allan yn eu cymunedau eu hunain. 'Dyw hyn ddim yn digwydd ym mhobman yng Nghymru nac i bob plentyn, ond ble y mae'n digwydd, mae gan y Mesur, a'r modd y caiff ei weithredu, y potensial i helpu i newid y patrwm hwn er gwell.

Ers tua canrif bellach rydym wedi darparu ar gyfer chwarae plant y tu allan fel mai'r unig beth oedd ei angen oedd cyrchfan, gydag ardal chwarae wedi ei gwneuthuro â ffens o'i hamgylch, sydd yn aml iawn yn rhy bell i blant gerdded yno'n annibynnol. Tra bo rôl ar gael i'r maes chwarae, nid yw'n ateb anghenion chwarae amrywiol plant yn llawn – dylai fod yn un o ystod o ddewisiadau sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer y math o ymddygiad chwarae amrywiol y gwyddom sy'n cyfrannu at iechyd a gwytnwch plant – eu gallu i oroesi a ffynnu.

Gellir ystyried chwarae plant fel taith: mae'n dechrau pan fyddant yn deffro, yn parhau wrth iddynt adael y tŷ, o gael digon o ryddid bydd plant yn chwarae eu ffordd trwy eu cymuned a thrwy eu diwmnod, ac os oes cyrchfan benodol ar ddiwedd y dydd, eu cartref yw hwnnw ac yn ôl i'r gwely bach. Fydd chwarae ddim yn digwydd mewn mannau penodol ac ar adegau penodol yn unig – mae'n rhan annatod o fywyd plant.

Fel cymdeithas, mae angen inni edrych yn fanwl ar y modd y byddwn yn ystyried plant a'u presenoldeb mewn mannau agored cyhoeddus. Bydd plant yn dweud writhym yn eu geiriau eu hunain, am amrywiol resymau, eu bod yn aml iawn ddim yn teimlo'n ddiogel a bod dim croeso iddynt y tu allan – bydd hyn yn cwtogi'n sylweddol ar eu cyfleoedd i chwarae. Mae Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn casglu tystiolaeth ar gyfer eu hymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu, ac edrychwn ymlaen i ddysgu oddi wrth ac i weithredu ar eu canfyddiadau. Hyderwn y bydd argymhellion yr ymchwiliad yn hysbysu'r Rheoliadau a'r Canllawiau fydd yn nodi manylion y dyletswydd ar awdurdodau lleol.

Mae'r Mesur yn sôn am 'ddigonolrwydd', felly, beth sy'n ddigon? 'Does bosibl mai'r lleiaf y gellid ei ddisgwyl yw amgylchedd ble fo plant yn teimlo'n rhydd i grwydro, i chwarae eu ffordd trwy eu cymuned, i chwarae gyda'r hyn ddaw i law, a gyda phwy bynnag fydd yn troi lan. Gall hyn ddigwydd os y byddwn yn newid y modd yr ydym yn ystyried pob gofod agored cyhoeddus; os y byddwn yn dechrau ei ystyried fel nid dim ond lle ar gyfer oedolion, ond ar gyfer plant hefyd.

A sut allwn ni asesu digonolrwydd? Mae'r Mesur hefyd yn gosod dyletswydd o ran cyfranogiad plant. Mae hyn yn enghraifft perffaith o ble y gallwn greu cysylltiad â'r plant – os ydym am wybod beth yw cyfle chwarae digonol, fe allwn ofyn iddyn nhw beth sy'n ddigon. Mae ein Comisiynydd Plant yn gobethio, mewn pum mlynedd, y bydd y miloedd hynny o blant sydd wedi siarad ag e am fethu gallu chwarae allan, wedi gweld newid gwirioneddol yn eu rhyddid.

Os y cawn ni hyn yn iawn, bydd gweld mwy a mwy o blant yn chwarae trwy ein cymunedau, a'u straeon, yn arddangos llwyddiant ein gwaith i sicrhau digonolrwydd. Bydd plant yn dweud writhym a bydd plant yn dangos inni.

Mike Greenaway
Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol ar gael i'w lawrlwytho o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk



Ymchwiliad Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu

Abigail Phillips, Clerc Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n dweud wrthym am eu ymchwiliad i fannau diogel i blant a phobl ifainc chwarae a chymdeithasu.



Yn ystod haf 2009, cynhaliodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc Cynulliad Cenedlaethol Cymru brosiect 'Chi sy'n bwysig!' ofynnodd i blant a phobl ifainc 'beth sy'n bwysig i chi?'

Derbyniwyd dros 2700 o atebion. 'Does dim syndod bod y brosiect wedi nodi mai darpariaeth chwarae yw un o'r prif faterion llosg cyffredinol sy'n pryderu plant a phobl ifainc yng Nghymru heddiw.

Fe wnaeth cynllun gweithredu polisi chwarae 2006 Llywodraeth Cynulliad Cymru gydnabod bod 'effaith cymdeithas fodern ar fywydau plant wedi cyfyngu'n sylweddol ar eu cyfleoedd i chwarae'n rhydd a'i fod wedi arwain at ddiffyg cyfleoedd chwarae yn yr amgylchedd cyffredinol.' Ym mis Rhagfyr 2009, o ganlyniad uniongyrchol i ymatebion i'r brosiect 'Chi sy'n bwysig!', lansiodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifainc ei ymchwiliad i ddarpariaeth manau diogel i chwarae a chymdeithasu.

Mae'r Pwyllgor wedi mynd ati'n weithredol i geisio barn plant a phobl ifainc trwy gydol yr ymchwiliad. Ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad, cwrdodd Cadeirydd y Pwyllgor – Helen Mary Jones, Aelod Cynulliad dros Lanelli – â 40 o blant o Lwynhendy. Roedd y plant yn awyddus i gynnig syniadau ar gyfer gwelliannau y gellid eu gwneud i'w galluogi i gael mynediad i gyfleoedd chwarae diogel. Mae aelodau eraill o'r Pwyllgor wedi trefnu i gwrrd â grwpiau o blant a phobl ifainc ar draws Cymru ac mae Swyddogion Maes ac Addysg y Cynulliad wedi bod yn gweithio'n galed gyda phlant ysgol ac aelodau grwpiau ieuencid er mwyn eu galluogi i gyflwyno eu barn i'r Pwyllgor. Mae dros 500 o blant a phobl ifainc wedi cwblhau holiaduron a ddisbarthwyd gan y

Pwyllgor ac mae rhanddeiliaid, mudiadau ac unigolion wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Derbyniwyd nifer o oriau o dystiolaeth lafar eisoes, ond mae'r ymchwiliad yn parhau.

Tra'n derbyn tystiolaeth bydd y Pwyllgor yn ystyried nifer o faterion, yn cynnwys: y rhwystrau sy'n wynebu grwpiau penodol; materion sy'n berthnasol i ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes; cost cael mynediad i ddarpariaeth; trafnidiaeth; diogelwch traffig a ffyrdd; polisi cynllunio a chanfyddiadau ynghylch ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Gyda'r fath gylich gwaith eang, mae'r Pwyllgor wedi gosod cryn dasg i'w hunain. Fodd bynnag, gyda dyfodiad rheoliadau sy'n ymwneud â'r mesur newydd, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), ar y gorwel, mae'r ymchwiliad yn cael ei gynnal ar adeg allweddol i'r agenda chwarae yng Nghymru.

Disgwylir i adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor gael eu cyhoeddi yn ystod toriad yr haf. Yna bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymateb o fewn tua chwe wythnos a thrafodir y materion mewn dadl o'r Cyfarfod Llawn yn fuan wedyn.

I dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad a chopi o'r adroddiad pan gaiff ei gyhoeddi, ymwelwch â: www.cynulliadcymru.org

Cyflwynodd Chwarae Cymru dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig fel rhan o'r ymchwiliad. Derbyniwyd adborth cadarnhaol am ein tystiolaeth gan Aelodau o'r Cynulliad, Ciercod y Pwyllgor a mudiadau eraill sy'n ymwneud â chwarae plant. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ar gael i'w lawrlwytho o hafan ein gwefan: www.chwaraecymru.org.uk

Cyfleoedd Chwarae Digonol?

Ar 10 Chwefror 2010 derbyniodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) Gydsyniad Brenhinol. Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i archwilio a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yng Nghymru.

Tra'n siarad yn ein seminar 'Cyfleoedd Chwarae Digonol ar gyfer Plant: Beth sy'n ddigon da?' yng Nghaerdydd, eglurodd Y Dirprwy Weinidog dros Blant, Huw Lewis AC, yr effaith gaiff y Mesur ar ddarpariaeth chwarae a'r hyn fydd yn digwydd nesaf. Dyma ddyfyniadau a godwyd o'i araith.

'Bydd hyn yn gosod dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i:

- gynnal asesiad digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn eu hardal, o ran eu hansawdd a'u nifer, ac i;
- sicrhau darpariaeth a mynediad i gyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant, gan roi ystyriaeth i'w hoedran a'u gallu
- gwneud trefniadau i sicrhau bod plant yn cyfranogi ym mhroses llunio penderfyniadau'r Awdurdod fydd yn effeithio arnynt.

'Mae'r dyletswydd yma'n adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn benodol Erthygl 31.1 sy'n nodi bod "Pleidiau Gwladwriaethol yn cydnabod hawl y plentyn i orffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn gweithgareddau adloniadol a chwarae sy'n briodol i oedran y plentyn ac i gyfranogi'n rhydd ym mywyd diwylliannol a'r celfyddydau".

'With gwrs rydym yn deall bod yn rhaid i unrhyw ddyletswydd gael ei ystyried yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael, ond ni ddylai hyn atal awdurdodau lleol rhag meddwl am ffyrdd creadigol o hyrwyddo chwarae plant'.

Felly beth yw'r camau nesaf yn y broses hon?

'Dros y 12 mis nesaf bydd Cynulliad Cymru'n pennu safonau a rheoliadau, ac yn rhoi arweiniad i Awdurdodau Lleol ar sut i gyflawni eu dyletswydd i ddarparu cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant a phobl ifainc yn eu hardal.

'Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phob Awdurdod Lleol; gyda Mudiadau Gwirfoddol sy'n ymwneud â chwarae; gydag Adranau eraill Cynulliad Cymru a Chyrrff Rheolyddol mewn meysydd sy'n effeithio ar allu plant i gael mynediad i gyfleoedd chwarae; ac wrth gwrs gyda rhieni; ac yn bwysicaf oll gyda'r plant a'r bobl ifainc eu hunain.

'Bwriad y gwaith yma fydd creu disgwyliadau realistig a phrosesau effeithlon i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer plant.'

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/busleg-measures/business-legislation-measures-cf.htm>



Ymgynghoriad Strategaeth Sgiliau a Dysg Gwaith Chwarae SkillsActive

SkillsActive

Mae SkillsActive wedi lansio Ymgynghoriad ar strategaeth y DU ar gyfer cymwysterau, hyfforddiant ac addysg gwaith chwarae – *Strategaeth Sgiliau a Dysg Gwaith Chwarae 2011 – 2016* – ac maent yn annog y sector gwaith chwarae i leisio eu barn.

Mae'n dilyn strategaeth gwaith chwarae gyntaf SkillsActive – Hyfforddiant o Safon, Chwarae o Safon (QTQP) – sy'n seiliedig ar egwyddor Erthygl 31 Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n cydnabod bod chwarae'n hawl ac yn hanfodol i ansawdd bywyd plentyn.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad yw: 9 Ebrill 2010.

Am fwy o wybodaeth ac i gwblhau fersiwn Saesneg electronig o'r holiadur, ymwelwch â:

www.skillsactive.com/resources/consultations-have-your-say/playwork-strategy/

Mae holiadur yr ymgynghoriad a mwy o wybodaeth ar gael hefyd yn y Gymraeg ar wefan Chwarae Cymru:

www.playwales.org.uk/news.asp?id=977

Ardaloedd Blaenoriaeth i Chwarae Cyntaf yn Wrecsam

Mae'r 'Ardaloedd Blaenoriaeth i Chwarae' cyntaf yn Wrecsam wedi eu lansio ar Ystad Plas Madog.

Nod yr arwyddion blaenoriaeth i chwarae yw dynodi **Ardaloedd priodol o fewn cymuned ble fo plant yn ddiogel ac yn cael eu hannog yn weithredol i chwarae.**

Mae pawb ohonom yn gyfarwydd ag arwyddion Dim Gemau Pêl, ond yn hytrach na chyfleu'r neges negyddol yma gall yr Ardaloedd Blaenoriaeth i Chwarae helpu i gefnogi chwarae tra, ar yr un pryd, gynorthwyo i symud plant oddi wrth ardaloedd llai priodol, ble y caiff chwarae'n aml iawn ei gamgymryd am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Derbyniodd yr ymgynghoriad gyda thrigolion lleol adborn hynod o gadarnhaol. Galluogodd sylwadau megis, 'Dyma beth mae'r stryd ei angen' a 'Syniad gwych, hen bryd' i Gymunedau'n Gyntaf Plas Madog i fwrw ymlaen â'u prosiectau.



Meddai Claire Griffiths, Swyddog Cyfranogaeth Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar, Cymunedau'n Gyntaf Plas Madog, 'Rydym yn anelu i gynnal hawl y plentyn i chwarae ac yn croesawu gweld plant yn chwarae yn eu strydoedd. Er mwyn cydnabod hyn, rydym yn bwriadu arddangos arwyddion Ardal Blaenoriaeth i Chwarae yn rhai o'r strydoedd ble y bydd plant yn chwarae'n weithredol. Byddant yn olygfa galonogol i bob plentyn a pherson ifanc, ac yn rhoi caniatâd iddynt fwrw 'mlaen i chwarae mewn ardaloedd ble y bydd croeso iddynt'.

Dysgwch fwy am arwyddion Ardal Blaenoriaeth i Chwarae a gynhyrchwyd gan London Play ar www.londonplay.org.uk – efallai, os y bydd digon o alw yng Nghymru, y bydd gennym ein fersiwn dwyieithog ein hunain maes o law.

Sôn am Swnian ...

Yn ddiweddar trodd y cyfryngau eu sylw ar lywodraeth leol Berlin a'u penderfyniad i ddiwygio cyfraith i ganiatáu i blant fod yn swnlyd.

Dyma ddywed adroddiad ar-lein y BBC:

Mae plant ym mhrifddinas Yr Almaen, Berlin, i gael eu heithrio o gyfreithiau llym sy'n ymwneud â llygredd swm. Mae diwygiad i gyfraith y ddinas bellach yn ei gwneud hi'n 'sylaenol ac yn gymdeithasol oddefadwy' i aelodau'r to iau i gadw swm.

Tan nawr dim ond clychau eglwys, seirenau brys, erydr eira a thractorau sydd wedi cael eu heithrio o reoliadau caeth swm gormodol Yr Almaen.

Ym Merlin yn unig ceir cannoedd o achwynion bob blwyddyn am lefelau swm o ysgolion meithrin a meysydd chwarae plant. Gorfodwyd rhai cyfleusterau gofal-dydd i gau hyd yn oed, wedi i drigolion lleol fynd i'r llys i geisio bywyd tawelach.

Dywedodd Axel Strohbusch (Adran Atal Swm) mai 'dyma'r tro cyntaf inni nodi mewn cyfraith bod raid inni ystyried hawliau plant i weiddi a chadw swm tra eu bod yn tyfu lan, a dylai pob cymydog ystyried hyn'.

Dywedodd mudiad amddiffyn plant Yr Almaen wrth asiantaeth newyddion AFP eu bod yn croesawu'r cam yma: 'Rydym yn byw mewn dinas a dylid caniatáu i blant chwarae a chadw swm.'

<http://news.bbc.co.uk/1/hi/world/europe/8520941.stm>



Pecyn cymorth a chynllun gweithredu CCUHP



Ar 20^{ed} pen-blwydd Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun gweithredu sy'n amlinellu'r camau mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifainc yn dod yn realiti dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Cynllun Gweithredu, *Gwneud Pethau'n lawn*, a gyhoeddwyd mewn ymateb i Sylwadau Clo Pwylgor y CU ar Hawliau'r Plentyn 2008, yn amlinellu 90 cam gweithredu allweddol ar draws ystod eang o feysydd polisi.

Mae'r camau gweithredu'n cynnwys datblygu polisi chwarae newydd a darparu mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifainc i gymryd rhan mewn cerddoriaeth, chwaraeon a'r celfyddydau.

<http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/gettingitright2009/?skip=1&lang=cy>

Yn ogystal, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch hawliau plant, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu pecyn cymorth gweithdy. Mae'r pecyn cymorth yn adnodd annibynnol y gellir ei ddefnyddio gyda phlant a phobl ifainc, rhieni a phobl broffesiynol.

www.ccuhpwgneudpethauniawn.co.uk/toolkit.aspx

Strydoedd DIY Sustrans

Mae prosiect Strydoedd DIY Sustrans yn arddangos agweddau fforddiadwy ond dyfeisgar tuag at gynllunio strydoedd, gan ddwyn ysbrydoliaeth oddi wrth barthau cartrefi a mentrau tebyg.



Mae Sustrans, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, wedi helpu cymunedau lleol i ddyfynio newidiadau rhad sydd wedi gwneud eu strydoedd yn fwy diogel a mwy deniadol.

Mae'r canlyniadau cyntaf o'r ymchwil a gynhaliwyd ar ddiwedd y prosiect wedi canfod bod trigolion yn credu bod eu strydoedd yn fwy cymdeithasol a'u bod yn fwy tebygol o adael i'w plant chwarae allan.

Bydd y canlyniadau gwerthuso i gyd ar gael ar wefan Sustrans maes o law.
www.sustrans.org.uk

Gwerthuso'r Gwasanaeth Gwybodaeth

Hoffai Angharad a Gill (a Grŵp Ymgynghorol ein Gwasanaeth Gwybodaeth) ddiolch i bawb aeth ati i gwblhau a dychwelyd ein holiadur Gwerthuso'r Gwasanaeth Gwybodaeth. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth yn fawr iawn a bydd yn ein cynorthwyo i wella a ffurfio'r modd y byddwn yn cyfathrebu â chi yn y dyfodol.

Os nad ydych wedi eich cynnwys yn y gwerthusiad hyd yma a'ch bod am gynnig adborth, mae'r holiadur ar gael i'w lawrlwytho o Adran Wybodaeth ein gwefan neu ebostiwrch Angharad os hoffech dderbyn copi caled:
angharad@chwaraecymru.org.uk neu galwch 029 2048 6050.

Diolch yn fawr iawn.



Diwrnod Chwarae 2010

Nid dim ond un diwrnod y flwyddyn – bob dydd o fywyd plentyn. Cynhelir Diwrnod Chwarae eleni ar Ddydd Mercher 4 Awst 2010.

'Ein Lle Ni'

Beth sydd y tu ôl i'r ymgyrch?

Rydym yn credu y gall, ac y dylai, plant allu chwarae bob dydd bron iawn ym mhobman y byddant yn treulio eu hamser ... oherwydd bod eu chwarae'n bwysig iddyn nhw, ac i bob un ohonom ni, ac mae'r fan yma'n le iddyn nhw hefyd.

Hyderwn y gallwch ymuno â ni i hyrwyddo plant yn chwarae fel partneriaid allweddol ym mywyd Cymru – yn weladwy, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu darparu ar eu cyfer ym mhobman y gallent dreulio amser ynddo neu deithio trwyddo – o riniog eu cartref i gopa'r Wyddfa, o Glawdd Offa i orsaf bysus yn Y Barri.

Mae chwarae'n un o agweddau pwysicaf bywyd plant a phobl ifainc. Rydym yn galw ar i gymunedau ar draws Cymru sefyll i'w fyny dros (a gyda) phlant – i gydweithio i newid agweddau ac amgylcheddau fel bod Cymru wir yn croesawu plant sy'n chwarae. Mae thema Diwrnod Chwarae eleni'n rhoi cyfle inni feithrin perthnasau ar draws ein cymunedau ac i ddechrau newid yr amgylcheddau yr ydym yn byw ynddynt, fel bod plant yn gallu credu'n wirioneddol ei fod yn 'le i ni hefyd!'

Chwarae Cymru a Diwrnod Chwarae

Bob blwyddyn bydd Chwarae Cymru'n cymryd rhan yng ngrŵp llywio Diwrnod Chwarae – ynghyd â thri mudiad cenedlaethol arall y DU dros chwarae plant – byddwn hefyd yn cydlynu ymgyrch y cyfryngau yng Nghymru ac yn cyhoeddi briffadau dwyieithog ac awgrymiadau sy'n cefnogi neges Diwrnod Chwarae.

Am fwy o wybodaeth ynghylch Diwrnod Chwarae, ymwelwch â www.playday.org.uk

Diolch i Rhodri

Ar ei ymddeoliad dywedodd y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC mai datblygu a gweithredu'r Cynnod Sylfaen i Gymru oedd ei brif gyflawniad yn ystod ei gyfnod yn gwasanaethu fel Prif Weinidog Cymru.

Ar ran tîm Chwarae Cymru cyflwynodd Marianne, Gill a Kathy un o'n cartwnau gwreiddiol – golygfa glan môr lliwgar – i'r Prif Weinidog.



Mae'n le i ni hefyd

Mae'r Cydsyniad Brenhinol a roddwyd i'r Mesur Plant a Theuluoedd yn golygu bod y rheini ohonom yng Nghymru sydd â diddordeb mewn chwarae plant wedi dechrau ystyried yr hyn a olygir wrth archwilio a darparu cyfleoedd chwarae digonol o fewn awdurdodau lleol. Ymunodd Dr Jan Van Gils â ni yn ddiweddar ar gyfer ein seminar, *Cyfleoedd Chwarae Digonol ar gyfer Plant; beth sy'n ddigon da?*, i rannu ei flynyddoedd lawer o brofiad ac ymchwil a'i wybodaeth ynghylch plant: chwarae, cymdeithas a chynllunio. Dyma ei gyfraniad i'n trafodaethau:

Rydyn ni yma

Yn ein cymdeithas heddiw mae gennym ddarpariaeth arbennig ar gyfer plant, er enghraifft llyfrau, sianelau teledu, gemau a mannau arbennig i chwarae – ac ar y cyfan, mae hyn yn beth da. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth arbennig yma hefyd yn golygu bod plant a phobl ifainc yn cael eu gwahanu oddi wrth weddill cymdeithas, rydym yn gweld llai a llai ohonynt ar ein strydoedd – dengys ein gwaith ymchwil mai dim ond hanner y nifer o blant a wellir yn chwarae allan heddiw ag oedd yn y 1980'au.

Y tueddiad ar hyn o bryd yw i blant a phobl ifainc fod yn llai amlwg mewn mannau cyhoeddus ac mae gennyf rywfaint o awgrymiadau ynghylch sut y gallwn ddechrau gwrthdroi hyn. Mae angen inni gefnogi plant, er mwyn dangos i aelodau eraill o'u cymuned eu bod yma a bod eu presenoldeb yn ddilys ac i'w groesawu:

- Byddaf yn awgrymu wrth blant y gallant (os y dymunant) arddangos eu lluniau yn y ffenest, dim ond er mwyn dangos 'rydyn ni yma' ac i ddangos eu gwaith celf i bobl fydd yn mynd heibio
- Byddaf yn annog pobl sy'n trefnu digwyddiadau cymunedol i gynnwys lluniau o blant ar eu posteri a'u taflenni cyhoedduswydd ac i ddylunio eu cyhoedduswydd i apelio at blant
- Byddaf yn annog arddangosfeydd awyr agored cyhoeddus o waith celf plant – gall fod yn arddangosfa syml iawn, casgliad o luniau wedi eu gosod ar wal derfyn y bydd pobl yn cerdded heibio iddi
- Byddaf yn annog plant i dynnu lluniau â sialc ar balmentydd a strydoedd

Trwy'r arwyddion anymosodol hyn gallwn ddechrau cyfleu'r neges bod 'plant yma'. 'Dyw'r un o'r awgrymiadau hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir, bydd y darluniau'n diflannu dros amser, ond bydd hynny'n rhoi cyfle i'r plant i greu rhagor o rai newydd a gwahanol.

Fydd y pethau hyn ddim yn digwydd ar eu pen eu hunain, bydd angen inni eu hwyluso. Yn y stryd ble rwy'n byw, fe fydda' i'n rhoi sialc i'r plant iddynt dynnu lluniau – fydda' i ddim yn dweud wrthynt nhw beth i'w wneud – 'dyw e ddim yn syniad costus, ond mae'n gwneud gwahaniaeth.

Ein stryd ni

'Dyw'r stryd ble rwy'n byw ddim yn rywle neilltuol, mae ceir wedi eu parcio ar y ddwy ochr, ond yr elfen hollbwysig am ein stryd ni yw bod y traffig yn symud yn araf, araf iawn. Mae gyrrwyr lleol yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd plant yn chwarae yma, ac wrth gwrs, mae'r plant a'r bobl ifainc wedi datblygu system rybuddio os y bydd car yn dod. Bydd y rhai hŷn yn cadw golwg ar y rhai iau a phan fo car yn dod caiff y stryd ei chlirio o blant yn ogystal â'r offer chwarae y maent wedi dod gyda hwy neu wedi ei adeiladu eu hunain.

Dros y blynyddoedd, mae'r nifer o blant sy'n chwarae allan ar y stryd wedi cynyddu'n raddol ynghyd â gwerthfawrogiad cynyddol bod y man yma'n le i blant hefyd. Mae rhieni wedi tyfu'n fwy cyfforddus gyda'r syniad o weld eu plant yn chwarae allan. Mae'r dulliau yr ydym wedi eu defnyddio'n rhai rhad; maent yn ymwneud â helpu i newid agweddau dros gyfnod maith o amser trwy adeiladu cymunedol parhaus yn hytrach na thrwy wneud buddsoddiad ariannol sylweddol. Mae llawer o'r gwelliannau wedi digwydd trwy arsylwi'r hyn sy'n digwydd eisoes a thrwy gynyddu'n raddol arno.

Mae'n bwysig dylanwadu ar agweddau tuag at blant yn chwarae cyn inni fynd ati i wneud newidiadau i'r amgylchedd ffisegol – yn y modd hwn byddwn yn dod â phobl gyda ni a byddwn yn gwneud newidiadau organig cynaliadwy gyda chefnogaeth llawer, yn hytrach nag ychydig.



© Sustrans

Symudedd ac adennill y stryd

Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r strydoedd i gerdded, nid dim ond er mwyn i blant gael eu gweld yn y gymuned ond yn hytrach er mwyn iddynt ddod i arfer cerdded ac ymgysgu â'u cymdogaeth – er enghraifft, gellid trefnu taith neu wers nofio o fewn pellter cerdded er mwyn osgoi defnyddio cerbyd.



© Sustans

Mae angen i bawb ohonom chwarae ein rhan yn hyn o beth – yn famau a thadau, yn athrawon ysgol, yn hyfforddwyr chwarae, yn bobl sy'n rhedeg clybiau plant a darpariaeth chwarae.

Dyma ichi lun o blant mewn maes chwarae ac maent wedi parcio eu beics ar y stryd – pam ddim? Mae hon yn stryd i blant hefyd, nid dim ond i yrwyr ceir. Mae gywyr ceir yn cael parcio eu cerbydau – felly pam na all y plant wneud yr un peth? Efallai bod y math yma o ddulliau'n ymddangos yn naif ond maent yn bethau bychain, rhad, syml ac effeithiol. Ond bydd plant angen cymorth i'w gwneud.

Strydoedd chwarae

Yn Yr Iseldiroedd a Gwlad Belg rydym wedi cyflwyno strydoedd chwarae; bydd rhai strydoedd ar gau i draffig am hyd at dair wythnos yn ystod gwyliau'r ysgol a cheir arwyddion arbennig ar y lampau stryd yno. Mae'n rhaid inni ennill cefnogaeth o leiaf hanner trigolion y stryd er mwyn derbyn caniatâd gan yr awdurdod lleol. Golyga hyn y bydd cymdogion yn siarad â'i gilydd ynghylch plant yn chwarae allan, fe fyddan nhw'n lobbio ei gilydd.

Am ychydig wythnosau bydd y rhain yn troi'n strydoedd ar gyfer plant yn chwarae – 'does dim darpariaeth arbennig yma bob amser ar gyfer eu chwarae, ond mae rhyddid i blant ddod â'u pethau chwarae a'u syniadau eu hunain i mewn i'r gofod yma.

Ar y dechrau (10 – 20 mlynedd yn ôl) cafwyd gwrthwynebiad gan y bobl hynny oedd yn meddwl, pe bai plant yn cael eu hannog i chwarae yn y stryd y byddai perygl iddyn nhw wneud hynny trwy gydol y flwyddyn, ond wedyn, dyna oedd y bwriad. Roedd rhai ohonom yn gwrthwynebu'r strydoedd chwarae oherwydd ein bod yn meddwl y dylid creu mannau arbennig ar gyfer chwarae plant, ond fe wnaethom sylweddoli nad oedd hyn bob amser yn ymarferol neu'n bosibl ym mhob stryd. Mae'r strydoedd chwarae'n ateb syml, rhad.

Yn raddol, mae'r fenter strydoedd chwarae'n dechrau gwreiddio'r syniad y gall, ac y dylai, plant chwarae yn y stryd, mewn cymdogaethau. Mae strydoedd chwarae'n dechrau creu ymdeimlad bod y stryd ar gyfer pawb, nid dim ond ar gyfer y bobl sy'n parcio eu ceir yno – ond mae'n broses araf a fydd canlyniadau ddim yn dod yn amlwg tan ar ôl tua pedair i bum mlynedd.

Partion stryd

Ddwywaith y flwyddyn bydd ein stryd yn cynnal parti'r tu allan – unwaith yn yr haf ac unwaith eto yn y gaeaf. Bydd y plant a'r oedolion yn eu cynllunio gyda'i gilydd ac yn cydweithio i wneud iddo ddigwydd. Mae ein partion stryd yn creu awyrgylch arbennig a chyfle i bobl ymgysgu â'i gilydd ac i'r plant a'r bobl ifainc i weld yr oedolion mewn cyd-destun gwahanol. Mae'r plant yn mwynhau rhoi help llaw – efallai mewn ffyrdd sydd ddim mor boblogaidd gartref fel arfer – ond mewn cyd-destun gwahanol bydd gorchwylion yn troi'n hwyl a gallant gyfranogi a gwneud eu cyfraniad eu hunain.

Fe fyddwn ni'n dysgu enwau'r plant – mae hyn yn hynod o bwysig – alla' i ddim dweud helo'n iawn, neu roi cerydd i rywun am wneud rhywbeth gwirion ar y stryd, na dechrau dod i adnabod rhywun, os nad ydw i'n gwybod eu henw.

Unwaith eto, mae'r agwedd yma'n gadarnhaol tuag at blant sy'n chwarae, mae'r stryd yn dechrau bod yn berchen i'r holl drigolion, nid dim ond i'r perchnogion ceir, ond mae angen inni fod yn amyneddgar, mae'n cymryd amser.

Yn fy stryd i fe fydd pobl ifainc yn eistedd ar y palmant gyda'u traed ar y ffordd, yn sgwrsio. Mae hyn yn dda i'n stryd. Mae'n gyfranogiad tawel – maent yn adennill y stryd oddi wrth y ceir.

Agwedd dawel

'Does dim angen gorfodi'r un o'r agweddau hyn, gallwn wneud gwahaniaeth i'n cymdogaethau trwy ddechrau ar riniog ein drws ein hunain. Rhoi lle i blant a phobl ifainc i fod. Rhoi dewis a chyfle iddyn nhw chwarae rhan yn eu cymuned, gwerthfawrogi eu cyfraniad, gadael iddyn nhw helpu. Dechrau gyda phethau bychain.

Cynllunio

Un o'r problemau gyda'n amgylchedd cynlluniedig yw nad yw wedi ei integreiddio; mae amrywiol swyddogaethau gofod cyhoeddus yn tueddu i fod heb eu cysylltu neu heb eu cynllunio i ateb anghenion pawb. Caiff gofod cyhoeddus ei ddyllunio gan wahanol benseiri, neu gynllunwyr, neu beirianwyr; mae gan bob un wahanol agwedd a gwahanol gylich gorchwyl.



Os ydych am wneud newidiadau o blaid chwarae a symudedd plant, lluniwch uwchgyllun ar gyfer y gymdogaeth – mapiwch yr holl ofod cyhoeddus sydd ar gael o ran mynediad a symudedd, cysylltiadau rhwng gwahanol fannau, manau penodedig ar gyfer chwarae, yr holl fannau y bydd plant yn chwarae ynddynt, manau gwyrddion, symudedd, adloniant, chwaraeon, ysgolion, siopau ... ond dechreuwch trwy fapio manau chwarae fel cam cyntaf ac yna cynnwys yr holl elfennau eraill. Gellir defnyddio map o'r fath fel tystiolaeth i ddwyn perswad ar wleidyddion a llunwyr penderfyniadau lleol i wneud newidiadau. Yna lluniwch gynllun – sut ellir creu gwell cyswllt rhwng manau cyhoeddus? Sut all plant symud yn annibynnol o fan i fan, a hynny'n ddiogel? Gellir ei ddefnyddio fel glasbrint ar gyfer agwedd tymor hir.

Fel rhan o'r broses mapio, ewch ati i greu rhestr o'r cyfleoedd chwarae a geir yn y gymdogaeth – gofynnwch i'r plant i helpu, ond cofiwch y bydd rhai manau chwarae'n arbennig ac yn gyfrinach ganddynt. Ceisiwch werthuso'r gymdogaeth gyfan o ran ei photensial ar gyfer chwarae a'i hygyrchedd ar gyfer plant o wahanol oedranau ag amrywiol anghenion.

Trwy arsylwi, bydd modd ymchwilio presenoldeb (neu ddiffyg presenoldeb) gwahanol grwpiau oedran, merched a bechgyn, plant anabl a phlant o wahanol gefndiroedd diwylliannol. Bydd hyn yn rhoi syniad da inni os yw manau'n ddigon da ar gyfer chwarae – er enghraifft, bydd llawer o fannau chwarae ffurfiol yn cael eu defnyddio fawr ddim neu gan ddim ond un grŵp oedran am gyfnod byr bob dydd. Mae'r wybodaeth yma i gyd yn ddefnyddiol – 'does dim pwrpas cynnwys cyfle chwarae mewn archwiliad digonolrwydd os fydd neb yn ei ddefnyddio.

O ystyried nodweddion poblogaeth yr ardal, pwy allech chi ddisgwyl ei weld ym mhob gofod cyhoeddus neu ar bob llwybr? Gall cyfrifiad bras o bwy sydd yn ble fod yn feincnod da ac yna gall arsylwadau dilynol helpu i werthuso effeithlonrwydd y camau a gymerwyd a hysbysu addasiadau.

Gweithredu

Nid oes modd newid cymdogaeth dros nos; gall cynllun gweithredu gymryd o leiaf 20 mlynedd i'w gyflawni. Dechreuwch gyda gwelliannau tymor byr, rhad a chynllunio gwelliannau strwythurol mwy costus ar gyfer y tymor hir. Anelwch i wneud newidiadau tymor hir cynaliadwy er budd plant sy'n chwarae – dydyn ni ddim yn edrych ar greu atyniadau unigol neu dymor byr – rydyn ni'n edrych ar ei gwneud hi'n bosibl i blant chwarae mewn ffyrdd bob-dydd, bob dydd, trwy gydol eu dydd am flynyddoedd i ddod.

Amrywiaeth

Wrth inni gynllunio, bydd angen inni sicrhau bod cyfleoedd chwarae a manau cyhoeddus amrywiol ar gael fel bod gan blant ddewisiadau sy'n ateb eu anghenion newidiol. Rwyf wedi dynodi pedwar o nodweddion chwarae y gallwn eu defnyddio er mwyn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifainc yn cael eu hateb (rwy'n gwybod bod llawer o wahanol fathau o chwarae, ond mae hyn yn llawer-fer defnyddiol):

- Chwarae derbyngar – pobl yn arsylwi, breuddwydio, mwynhau'r amgylchedd, darllen, myfyrio
- Chwarae cymdeithasol – pobl yn rhyngweithio, trafod, chwerrhin, cwrdd, dadlau
- Chwarae symud – pobl yn rhedeg, cwrso, sgipio, twmblo, dringo
- Chwarae creadigol – pobl yn dawnsio, canu, tynnu lluniau, adeiladu ac yn creu



Ystod

Mae angen i'r uwchgyllun gwmpasu'r hyn sydd ar gael ar wahanol bellter o riniog y drws.

Bydd angen inni ystyried symudedd a gallu teithio annibynnol gwahanol blant. Er enghraifft, dylai pob tref fod â chyfleuster sglefrfyrdio, ond 'does dim angen un ar bob stryd angen man arbennig i sglefrfyrdio ac mae plant hŷn yn tueddu i allu teithio i gyrraedd at barciau sglefrfyrdio. Dylai pob tref fod â mynediad i chwarae â dŵr, a maes chwarae antur wedi ei staffio (ble y gall plant newid y cyfleoedd chwarae a dod o hyd i syrpreisys). 'Dyw'r cyfleoedd chwarae arbenigol hyn ddim yn angenrheidiol ar lefel arbennig o leol, ond mae pob teulu angen posibiladau ar gyfer chwarae allan yn ddyddiol yn agos iawn i'w cartref, yn ogystal â chyfleoedd i rannu cyfle chwarae i 'gyrchfan' diwrnod allan.

Dylai unrhyw gyfle chwarae gaiff ei gynnig ar lefel trefol neu ranbarthol fod â chysylltiadau da o ran llwybrau trafniadaeth cyhoeddus, seiclo a cherdded.



'DIY'

Un posibilrwydd chwarae hynod o bwysig sydd angen rhoi ystyriaeth iddo yw gofod i adeiladu cuddfannau. Dywedodd un ymchwilydd o'r Iseldiroedd yn y ganrif ddiwethaf, bod raid i blant adeiladu cuddfannau yn union fel y bydd fforwyr yn gosod baneri i nodi tiriogaeth – caiff gweddill y byd adeiledig ei greu gan oedolion – mae cuddfannau'n dweud 'ni sydd piau hwn' a 'rydyn ni yma'.

Er enghraifft, rwy'n gwybod am lwybr BMX a grewyd gan blant. Fe wnaethon nhw'r rhan fwyaf o'r gwaith eu hunain, ond pan sylweddolod nhw nad oedd ganddyn nhw ddigon o arbenigedd i gyflawni eu amcanion, fe aethant at yr awdurdod lleol i chwilio am gymorth a threfnwyd i weithiwr â pheiriant tyllu i'w helpu. Mae'r math yma o agwedd yn cefnogi gwir gyfranogiad plant, yn cydnabod ac yn gwobrwyo eu hymdrechion i ddarparu ar gyfer eu hunain – ac mae'n ymddangos ei fod yn economaidd hefyd (mae'r awdurdod lleol wedi ateb angen chwarae gyda fawr ddim gwariant, byddai llwybr BMX wedi ei osod yn broffesiynol yn costio llawer mwy).

Weithiau fydd dim angen inni ymyrryd o gwbl – gadewch goeden ddringo gadarn, dda iddynt ei dringo – 'dyw'n costio fawr ddim.

Cynllun symudedd

Fel rhan o'n uwchgynllun, bydd angen inni ymgorffori llwybrau a chysylltiadau rhwng gwahanol fannau. Fydd plant a phobl ifainc nid dim ond yn chwarae ar ben eu taith, byddant yn chwarae ac yn rhyngweithio trwy gydol y daith. Gallwn wneud llwybrau'n fwy diddorol trwy ddefnyddio ein dychymyg – er enghraifft, gall y pyst a ddefnyddir i atal ceir rhag parcio ar balmentydd fod yn gyfle 'cerrig sarn' neu 'llam llyffant' (fel a welir eisoes mewn manau) – gydag ychydig o feddwl ochrol, gellir ymgorffori gwahoddiadau i chwarae am ddim cost ychwanegol.

Mae ysgolion yn benodol angen cynllun symudedd – beth yw'r llwybrau diogel ar gyfer cerdded i'r ysgol? Beth yw'r

llwybrau diogel ar gyfer beicwyr? Ond yn bwysicaf oll, bydd angen inni wneud hyn o safbwynt plentyn – efallai na fydd llwybrau sy'n ymddangos yn ddiogel i oedolion yn ddiogel i blant ac mae'n bosibl hefyd eu bod yn hynod o ddiiflas neu anneniadol.

Unwaith i gynllun symudedd pob ysgol gael ei gyfuno â thair ysgolion yn yr ardal gyfagos, bydd modd ffurfio rhwydwaith sy'n ddefnyddiol ar gyfer y gymuned gyfan.

Cwrdd lan

Mae manau cyfarfod yn bwysig iawn i bawb. Bydd pobl ifainc yn benodol angen ac yn gofyn am fannau i gwrdd lan â'u cyfoedion. Mae ein gwaith ymchwil yn awgrymu nad dim ond 'loetran' y mae nhw, ond bod sgysiau soffistigedig yn digwydd (am bobl eraill, cerddoriaeth, ffashiwn, chwaraeon, gweithgareddau) ble fo pobl ifainc yn datblygu eu cylch perthnasol eu hunain ac yn archwilio gwerthoedd. Allwn ni'r rhieni a'r athrawon ddim cyfrannu at hyn – rydyn ni'n hen ffasiwn! Mae'r rhyngweithio hollbwysig yma ymysg pobl ifainc yn rhywbeth sy'n digwydd draw oddi wrth oedolion ac mae'n ychwanegu'n sylweddol at eu gwytnwch emosiynol a chymdeithasol. Mae angen inni barchu hyn a darparu ar gyfer manau cwrdd awyr agored ar gyfer pobl ifainc.

Cymdogaeth i bawb

Mae angen i'n uwchgynllun anelu am dirwedd ble fo'r holl bobl yn y gymuned yn teimlo'n gyfforddus – ble nad yw grwpiau oedran yn cael eu gwahanu a ble fo digon o le i bawb gydfyw. Ni ellir ystyried neu ddarparu ar gyfer plant a phobl ifainc ar wahân i weddill eu cymuned – yr unig agwedd ymarferol a chynaliadwy i lefel digonol o gyfleoedd chwarae, yw agwedd holistig.

Dr Jan Van Gils yw Cyfarwyddwr y 'Research Centre for Childhood and Society' yng Ngwlad Belg. Mae'n sylfaenydd ac yn Llywydd yr 'European Child Friendly Cities Network', yn Llywydd yr 'International Council for Children's Play' ac yn gyn-Llywydd yr 'International Play Association'.

Dysgwch fwy am yr 'European Child Friendly Cities Network' ar www.childfriendlycities.org

Dysgwch fwy am yr 'International Council for Children's Play' ar www.iccp-play.org

Adroddiad cynhadledd

Yn ogystal, yn ystod seminar 'Cyfleoedd Chwarae Digonol ar gyfer Plant: Beth sy'n ddigon da?' ym mis Chwefror cafwyd cyflwyniadau diddorol, llawn gwybodaeth gan Wendy Russell a Stuart Lester (sy'n uwch-adarlithwyr ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw ac yn awduron *Play for a Change – Play Policy and Practice: a review of contemporary perspectives*); David Hawker, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS); a Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru.

Bydd adroddiad y gynhadledd ar gael i'w lawrlwytho ar wefan Chwarae Cymru erbyn y Pasg.





'People Make Play'

Mae **People Make Play: The impact of staffed play provision on children, families and communities** yn adroddiad newydd a gyhoeddwyd gan Play England sy'n seiliedig ar waith ymchwil gan y felin drafod a'r athrofa ymchwil annibynnol, Demos.



Crynodeb

Dywed yr adroddiad bod gwasanaethau chwarae wedi eu staffio, sy'n seiliedig ar syniadau'r plant eu hunain ynghylch y modd y maent am chwarae, yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i blant, rhieni a chymdogaethau. Gall darpariaeth o'r fath fod yn rhan annatod o'r rhwydwaith cefnogol ehangach ar gyfer plant a theuluoedd i fyw bywydau gwell ac i fod yn rhan o gymuned sy'n ffynnu. Gall buddsoddi yn sgiliau ac ymroddiad staff a gwirfoddolwyr ymroddedig ddarparu rhai o'r cyfleoedd gorau ar gyfer y plant hynny sydd fwyaf anghenus.

Dyma ddyfyniadau allweddol o'r Crynodeb Gweithredol:

Mae *People Make Play* yn darparu ystod o safbwyntiau ansoddol ar rôl ac effaith posibl darpariaeth chwarae lleol, wedi ei staffio, o ansawdd da ar fywydau plant a phobl ifainc, eu rhieni a'r gymuned ehangach. Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar ddarpariaeth chwarae ar gyfer plant rhwng 8 a 13 mlwydd oed, ac ar ddarpariaeth wedi ei staffio'n unig; wnaeth yr astudiaeth ddim delio â darpariaeth heb ei oruchwylio.

Mae'r ymchwil yn gwneud defnydd o adolygiadau llenyddol diweddar am bwysigrwydd chwarae rhydd ym mywyd plant, ac mae'n seiliedig ar chwech astudiaeth achos manwl o ddarpariaeth chwarae rhad ac am ddim, wedi ei staffio, o safon da ar draws Lloegr.

Canfyddiadau Allweddol

Amygchiadau ffisegol

Mae presenoldeb gweithwyr chwarae neu rodwyr chwarae'n cynnig diogelwch ac yn cynyddu hyder plant i chwarae'n rhydd, yn ogystal â chynyddu'r ystod o gyfleoedd chwarae a geir yn y gofod a ddarparwyd. I blant a rhieni mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa gyhoeddus ehangach, sy'n rhy aml yn methu cynnig yr un diogelwch a'r amrywiaeth o gyfleoedd.

Straeon plant

... tra eu bod wrth eu bodd gyda meysydd chwarae sydd wedi eu cynllunio'n dda ac ardaloedd chwarae deniadol, helaeth, y staff – y 'meddalwedd' – yn hytrach na'r 'caledwedd' o offer chwarae sydd, iddyn nhw, yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae'r plant yn mwynhau'r rhyddid i chwarae yn eu ffordd eu hunain y bydd gweithwyr chwarae a rhodwyr chwarae'n ei gynnig iddyn, ond yr hyn sy'n amlwg hefyd yw'r hyder y byddant yn ei ennill o fod gydag oedolion cyfrifol, cefnogol: i chwarae gemau, i fentro, i wthio'n erbyn ffiniau ac i gymdeithasu gyda phobl eraill mewn modd sydd



ddim bob amser yn bosibl gartref, ar y stryd, yn yr ysgol neu mewn meysydd chwarae heb eu goruchwylio.

Yn aml bydd darpariaeth chwarae wedi ei staffio yn digwydd ble fo gan blant fywydau anodd a chymhleth, a ble fo'r amgylchedd cyhoeddus ehangach yn gyffredinol yn anghroesawus iddyn. Oherwydd bod y safleoedd hyn yn darparu man i rodio'n rhydd, hafan diogel mewn byd anghyfeillgar, mae iddyn wir werth fel manau ble y gall plant fod yn nhw eu hunain, cael profiadau unigryw a gwerthfawr, cyswllt gyda'u cyfoedion a rhyngweithio â phlant hŷn ac iau.

Mae ymwneud gweithredol plant yn y gwaith o ddyfynio, gwneud penderfyniadau ac yna, yn llythrennol, adeiladu, ynghyd â'r staff, y math o dirweddau chwarae sy'n eu hysbrydoli yn dyst i berthynas sy'n fwy o bartneriaeth nag unrhyw beth arall. Yr un cyn bwysiced yw'r amser a roddir iddyn gan oedolyn sydd eisiau dim ganddyn, ond iddyn fod yn nhw eu hunain.

Straeon staff

O dan yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, rôl yr oedolyn yw cefnogi a hwyluso'r broses chwarae yn ei holl gymhlethdod a'i gyfoeth, yn hytrach na chyfeirio neu lywio yr hyn fydd plant yn ei wneud. Bydd gweithwyr chwarae'n helpu i ffurfio'r amgylchedd ffisegol yn

'Mae'r adroddiad amserol hwn yn arddangos rôl allweddol oedolion, nid yn chwarae'r plant yn union, ond yn narpariaeth y gofod ffisegol a chymdeithasol y bydd ei angen.'

Adrian Voce, Play England



ogystal â chymdeithasol er mwyn cynnig y cyfleoedd gorau posibl i chwarae i bob plentyn ... gan daro cydbwysedd rhwng caniatáu mynegiant llawn trwy chwarae a meithrin awyrgylch o ddiogelwch, goddefgarwch a pharch at ein gilydd, a gan ymyrryd yn ofalus dim ond ble fo angen er mwyn sicrhau bod y safleoedd yn gynhwysol i bawb.

Yn yr astudiaethau achos dan sylw, nid yw gweithwyr chwarae'n ystyried bod eu gwaith yn elfen ar wahân i gymdogaethau a chymunedau ond yn hytrach ei fod yn gysylltiedig â chyd-destun ehangach eu hardal leol. Maent yn gweithio'n gynyddol y tu hwnt i ffiniau eu safleoedd i archwilio ac ehangu cyfleoedd chwarae, a thrwy hynny'n newid y diwylliant a'r posibilïadau o fewn yr amgylchedd cyhoeddus yn gyffredinol. Yn hyn o beth, mae darparwyr chwarae ar flaen y gad ym maes ehangu gwasanaethau cyhoeddus.

Gwneud gwahaniaeth i fywydau plant

Mae plant yn cyfeirio at nifer o elfennau o 'ddysgu' ... i fod yn ddyfeisgar, yn hyderus ac yn gymdeithasol. Maent yn siarad am eu profiad o ran llwybrau cynnydd: am oresgyn anawsterau cynnar, boed yn gymdeithasol neu'n gorfforol, am fentro o'r newydd a rhannu straeon gydag eraill. Mae ystod anferth o sgiliau bywyd ac agweddau y dywed plant y gallant eu hennill fel rhan o'r broses hon: o ofalu, rhannu a bod yn garedig, i sefyll lan dros eich hun neu ofyn am gymorth. Mae'n ymddangos y gall y profiadau hyn newid syniadaeth plant ynghylch eu cymdogaeth, gan ei thrawsnewid yn fan y maent yn ymddiried ynddi ble y maent yn teimlo bod croeso iddynt, ble y maent yn adnabod eu cyfoedion a phobl eraill, ac yn ystyried eu bod yn gartrefol ynddi.

Straeon rhieni

Mae rhieni a gofalwyr yn aml iawn yn gefnogwyr brwd o ddarpariaeth chwarae wedi ei staffio. Trwy'r holl astudiaethau achos, maent wedi bod yn awyddus i rannu straeon pwerus ynghylch sut y mae wedi newid bywydau eu plant, eu bywydau hwy fel rhieni a sut y bu o fudd i'w cymdogaethau fel manau i fyw ynddynt. Maent yn cydnabod bod darpariaeth chwarae wedi ei staffio yn elfen allweddol o fywydau eu plant – yn brofiad annatod y byddai eu plant yn gweld ei eisiau'n fawr iawn. Maent hefyd yn ymwybodol iawn o'r gymysgedd o fuddiannau iechyd, dysgu a chymdeithasu y bydd plant yn eu hennill o chwarae, ond yn bennaf maent yn pwysleisio'r modd y mae eu plant yn ennill profiadau gwerthfawr, unigryw pan ganiateir i chwarae ddigwydd er ei les ei hun.

Ond mae'r safleoedd hyn yn gwneud gwahaniaeth i fywydau rhieni hefyd. Maent yn dod â rheini i gysylltiad â rhieni eraill ac yn hwyluso creu cysylltiadau cymdeithasol a rhwydweithiau cefnogol anffurfiol – elfennau allweddol mewn cymdogaethau difreintiedig ac ar gyfer rhieni anghenus. Mewn gwirionedd, teimla rhieni y gall darpariaeth chwarae drawsnewid eu cymunedau, trwy dorri ar draws rhaniadau cymdeithasol, trwy greu cysylltiad rhwng cymdogion a thrwy greu ymdeimlad cryfach o gymuned. Mynegir y gefnogaeth yma'n aml trwy wirfoddoli, all yn ei dro fod o fudd i rieni sy'n dysgu sgiliau gwerthfawr.

Gall darpariaeth chwarae gynyddu cyfalaf cymdeithasol lleol ble mae ei angen fwyaf. Oherwydd hyn i gyd, mae llawer o rieni'n teimlo y gall gwerth y sefyllfaoedd chwarae hyn, fel a fynegir gan yr hyn y bydd eu plant yn ei ddweud withynt neu trwy'r hyn y byddant yn ei brofi eu hunain, fod gyferth neu hyd yn oed yn well na llawer o wasanaethau y bydd raid iddynt dalu amdanynt

– sy'n cynnwys gofal plant, teithiau ysgol neu weithgareddau chwaraeon. Mewn rhai achosion, mae bodolaeth darpariaeth chwarae o safon wedi gweithredu fel ffactor bwysig wrth iddynt benderfynu i unai adael neu aros mewn cymdogaeth benodol.

Cysylltiadau sefydliadol

Mae ystod eang o gysylltiadau sefydliadol yn amlwg yng ngwaith dyddiol darparwyr chwarae llwyddiannus. Mae ysgolion lleol, gwasanaethau plant, staff parciau, gweithwyr cefnogi teuluoedd, llyfrgelloedd, yr heddlu ac aelodau etholedig yn ddim ond rhai o'r enghreifftiau a geir o bobl chwarae proffesiynol yn cael cysylltiad rheolaidd â rhwydwaith cefnogol ehangach ar gyfer plant a theuluoedd. Oherwydd bod darpariaeth chwarae i'w weld amlaf mewn ardaloedd difreintiedig iawn, a gan fod ei ethos o alluogi gweithgarwch a gyfarwyddir yn bersonol ac a ddewisir o wirfodd yn ei wneud yn fwy hygyrch i blant fyddai fel arall mewn perygl o gael eu heithrio, yn aml gall adeiladu pontydd pwysig rhwng y gwasanaethau plant statudol a theuluoedd a phlant sydd yn anodd i'w cyrraedd.

Ceir digonedd o enghreifftiau yma o'r modd cynyddol y caiff sefyllfaoedd chwarae wedi eu staffio eu hystyried fel elfen allweddol o'r agwedd gwasanaethau integredig, aml-asiantaeth sy'n ganolog i ganlyniadau gwell a pharhaus ar gyfer plant.

Yn gyntaf, mae darpariaeth chwarae wedi ei staffio, yn hytrach na bod yn ofod adloniadol syml, mewn gwirionedd yn wasanaeth holistig ar gyfer plant a phobl ifainc. Mae cyngori, mentora a hyfforddi anffurfiol ynghyd â chyngor ynghylch cyffuriau, rhyw a chadw'n ddiogel i gyd yn rhan annatod o rôl y gweithiwr chwarae, ynghyd â'r cyfeirio a'r atgyfeirio hollbwysig at wasanaethau statudol, sy'n cynnwys byrddau diogelu lleol. Gallant hefyd fod yn borth i gyfleoedd ym meysydd chwaraeon, y celfyddydau a gweithgareddau diwylliannol eraill. O'r herwydd, gellir ystyried bod darpariaeth chwarae wedi ei staffio yn llanw bwch allweddol ar gyfer y blynyddoedd canol, rhwng addysg gynnar statudol a darpariaeth ieuenctid.

Yn ail, mae'r manau hyn yn gerrig cyffwrdd ar gyfer ymgysylltiad plant a phobl ifainc â'u hamgylcheddau ffisegol a chymdeithasol. Oherwydd eu bod yn fannau y maent yn dewis eu mynychu – yn hytrach na chael eu cyfeirio atynt neu eu gorfodi i'w mynychu – maent yn llwyddo i gyfoethogi ymdeimlad plant o le a chymuned.

Yn olaf, mae gwerth ychwanegol aruthrol gwirfoddolwyr a phwyllgorau rheoli gwirfoddol, dyfeisgarwch a hunangynhaliadaeth yr ethos gwaith chwarae (meysydd chwarae antur a'u cyflenwyr o storffeydd sborion oedd yr ailgylchwr gwreiddiol) a'u diffyg iachusol o haenau gweinyddol biwrocataidd, yn dadlau achos economaidd sylweddol dros y math hwn o ddarpariaeth. Mae'n sicr y byddai unrhyw ddadansoddiad cost-budd o'r prosiectau a amlinellwyd yma'n arddangos enillion sylweddol, o'i gymharu â'r gwasanaethau statudol mwy traddodiadol.

Ymatebion partneriaid polisi

Ceir cydnabyddiaeth cynyddol o bwysigrwydd chwarae ymysg llunwyr polisiâu a rhanddeiliaid gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn oherwydd cyfuniad o resymau cyfryngol a chynhenid: tra eu bod yn bennaf ac yn flaenaf yn cydnabod hawl plant i dderbyn darpariaeth chwarae o safon, mae'r rhanddeiliaid hyn yn cydnabod hefyd y gwahaniaeth y gall darpariaeth chwarae ei wneud i ganlyniadau eraill ar gyfer plant a'u amcanion proffesiynol hwythau.

Casgliadau

Yr hyn y mae'r ymchwil yma'n ei arddangos yw nad yw rhai o'r cyfleoedd gorau ar gyfer y plant hynny sydd fwyaf anghenus yn codi o ganlyniad i fuddsoddi'n unig mewn 'caledwedd' megis safleoedd ac offer, ond yn hytrach trwy ddealltwriaeth, sgiliau ac ymroddiad staff a gwirfoddolwyr ymroddedig. Bydd gweithwyr chwarae a rhodwyr chwarae'n troi manau ffisegol yn fannau'n llawn cyfleoedd, dychymyg a pherthyn. I lawer o blant mewn llawer o ardaloedd, fydd buddsoddi mewn offer fyth yn ddigon. Caiff y cyfleoedd gorau i chwarae eu ffurfio gan bobl.

Gellir lawrwytho *People Make Play* yn rhad ac am ddim oddi ar wefan *Play England* ac mae ar gael i'w brynu ar ffurf copi caled.

www.playengland.org.uk



Y diweddaraf am P³

Hyd yma bu 2010 yn flwyddyn gyffrous a heriol i'n cymhwyster lefel 2 Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³). Ers mis Ionawr, mae 143 o ddysgwyr wedi (neu ar fin) cofrestru ar gyrsiau ar draws Cymru – o Geredigion i Gaerffili ac o Gonwy i Rhondda Cynon Taf.

Mynd ar-lein

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn peilota system gyflwyno gwaith ar-lein sy'n rhoi'r dewis i ddysgwyr P³ i gyflwyno eu gwaith ac i sgwrsio ar-lein ac i bostio negeseuon am eu cyrsiau. Bydd y system yma'n gwbl ddatwyieithog yn fuan, ond gallwn eisoes dderbyn gwaith a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth gwrs, mae'r dewis papur traddodiadol, o ddefnyddio'r llawlyfr dysgwyr, yn dal ar gael ar gyfer dysgwyr Cymraeg a Saesneg eu hiaith.

Gall dysgwyr gymryd rhan trwy wefan Gwaith Chwarae Cymru ar www.gwaithchwaraecymru.org.uk

Hyfforddwyr newydd

Mae gennym grŵp newydd o hyfforddwyr P³ sy'n barod i ledaenu trosglwyddo P³ i mewn i Gonwy, Gwynedd a Chaerdydd. Rydym yn ddiolchgar i Wasanaethau Chwarae

Plant Caerdydd am ddarparu lleoliad am ddim inni redeg y cwrs ac i bawb a gymerodd ran a'u holl egni meddyliol a chorfforol!! Dyma sylwadau Dafydd Myrddin Hughes o Wynedd am y cwrs:

'Wedi imi gwblhau Gwobr P³ fel myfyriwr flwyddyn yn ôl a phrofi'r "WOW ffactor" bryd hynny, roeddwn yn disgwyl i'r cwrs yma fod yn rhywbeth gwahanol, yn rhywbeth oedd allan o'r cyffredin ac efallai'n heriol ... roeddwn i'n iawn! Roedd y cwrs yn sicr allan o'r cyffredin o ran yr amrywiaeth o ddulliau dysgu a'r ffaith ein bod yn ymwneud â phob agwedd o'r cwrs (oedd yn ein galluogi i fynegi barn mewn modd cwbl agored, gonest a rhydd heb unrhyw fygythiad o gael ein bychanu). Llwyddodd hyn i greu amgylchedd dysgu cefnogol ac effeithlon.

'Fe ddysgais lwyth o bethau dros y pum niwrnod gan adael ar ddiwedd pob dydd wedi blino'n llwyr, ond roedd yn flinder da a hapus oherwydd ei "fod o werth e"! Yn bennaf oll rwy'n teimlo iddo lwyddo i fy mharatoi'n drylwyr ar gyfer fy nghwrs cyntaf fel hyfforddwr fydd, rwy'n falch o ddweud, yn cael ei drosglwyddo'n gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.'

Hyfforddiant aseswyr

Yn mis Mawrth fe wnaethom gynnal cwrs City & Guilds L20 – *Support Competence in the Workplace* ar gyfer pobl oedd am gymhwyso i fod yn aseswyr cymwysterau gwaith chwarae.

P³ ar y fframwaith cymwysterau

Yn ddiweddar cafodd cofrestriad P³ ei ymestyn tan ddiwedd y flwyddyn gan SkillsActive, y cynngor sgiliau sector, pryd y caiff ei adolygu ynghyd â phob cymhwyster gwaith chwarae arall er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau galwedigaethol cenedlaethol.

activepassport™

Mae activepassport™ yn offeryn ar-lein sy'n cefnogi datblygiad gyrfa ar gyfer gweithwyr chwarae a phobl broffesiynol eraill sydd ynghlwm â darpariaeth chwarae. Mae'n cynnig cofnod cyfleus, wedi ei wirio o sgiliau, dysg a chymwysterau person, gan gynnwys hyfforddiant mewn swydd, hanes cyflogaeth a chyflawniadau proffesiynol.

- Chi sy'n berchen ar eich activepassport™ a bydd modd ei drosglwyddo o un cyflogwr i'r llall, felly gall fod yn sail i gynllun datblygiad personol neu helpu i fapio a llywio eich llwybr gyrfa cyflawn
- Trwy amlygu doniau ymarferol, yn ogystal ag unrhyw gymwysterau ffurfiol, mae'r activepassport™ yn cynnig

Mae Gwaith Chwarae Cymru, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae, wedi cael ei derbyn yn Ganolfan a gymeradwywyd gan CACHE ar gyfer trosglwyddo Gwobr, Tystysgrif a Diploma lefel 3 CACHE mewn Gwaith Chwarae.

Rydym yn gobeithio y gallwn dynnu ariannu i lawr o'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS) trwy ein cytundeb gyda ITEC Training Solutions i gefnogi trosglwyddo CACHE lefel 3.

gwaith chwarae

modd rhwydd o ddangos eich holl gyflawniadau i ddarpar gyflogwyr

- Yn ogystal â chofnodi eich hyfforddiant a'ch cymwysterau presennol gallwch hefyd gynllunio ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Yn wahanol i CV arferol, mae'r cofnod hwn ar ffurf ffotogerdyn hygyrch a phroffil ar-lein rhyngweithiol, y gellir ei ddiweddarau unrhyw bryd
- Mae meddu ar activepassport™ yn arddangos ymrwymiad i ddatblygu eich sgiliau a mwyafu eich potensial
- Yn eich atgoffa pan fo hyfforddiant gorfodol ar fin dod i ben fel y gallwch ddiweddarau unrhyw hyfforddiant allweddol.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â

gweithlu@chwaraecymru.org.uk

neu dysgwch fwy ar www.activepassport.co.uk

Adolygiad hyfforddiant Gwaith Chwarae

Mae'n bosibl eich bod eisoes wedi chwarae rhan yn y gwaith ymchwil a gyflawnwyd gan Melyn Consulting ar ran Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu rhychwant a throsglwyddiad hyfforddiant gwaith chwarae yng Nghymru.

Mae'r adolygiad hefyd yn cwmpasu rôl Gwaith Chwarae Cymru, y ganolfan genedlaethol dros addysg a hyfforddiant gwaith chwarae.



Strategaeth DPP

Mae *Potensial mewn Gwaith Chwarae: Strategaeth Datblygiad Profesiynol Parhaus ar gyfer y Sector Chwarae yng Nghymru 2009* bellach ar gael i'w lawrwytho oddi ar wefan Gwaith Chwarae Cymru: www.playworkwales.org.uk



Offeryn recriwtio gwych

Mae *Gyrfa fel gweithiwr chwarae?* yn ganllaw dwyieithog i waith chwarae gan Gwaith Chwarae Cymru, llyfryn ar gyfer cyflogwyr sy'n recriwtio neu ar gyfer unrhyw un sydd eisiau cymorth i egluro'r rôl gwaith chwarae i bobl eraill.

Mae'r llyfryn wedi ei ddiweddarau fel ei fod hyd yn oed yn fwy defnyddiol ac mae wedi ei ail-argraffu (gan i'r argraffiad cyntaf gael ei werthu i gyd) fel bod digon o gopïau ar gael ar gyfer recriwtio yn ystod haf 2010.

Mae copïau ar gael i'w prynu (i dalu ein costau) yn adran siop gwefan Chwarae Cymru: www.chwaraecymru.org.uk

Gwaith Chwarae: Dyfodol o Safon

Yn ystod seminar ddiweddar Gwaith Chwarae Cymru yn Llanelwedd, achubwyd ar y cyfle i weithio gyda chyfeillion o bob cwr o Gymru i adeiladu a chynllunio ar gyfer y sector gwaith chwarae.

Cyfathrebu Da – ein addewid

Cyfathrebu yw'r allwedd i waith pawb gyda ac ar ran plant, felly yng Ngwaith Chwarae Cymru rydym wedi dechrau gweithio ar Strategaeth Cyfathrebu ar gyfer ein gwaith ac ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn chwarae plant – ond nid dogfen fydd ond yn eistedd ar sillf mo hon ...

Daeth pobl at ei gilydd i weithio ar lunio cynllun yn ein Seminar Gweithlu – ac roedd yn bleser gweld gwên ar wynebau'r cyfranogwyr wrth inni ddechrau egluro ein syniadau cynnar ar gyfer Addewid Cyfathrebu cyffredin ar gyfer Cymru – fel bod pob un ohonom yn gallu cynorthwyo gyda chyfathrebu effeithlon ac eglur oddi mewn ac allan i'n sector.

Mae'n ymddangos efallai bod rhai o'r cyfranogwyr wedi bod yn ofni dogfen

swyddogol hir a sychlyd arall a'u bod yn llawn ryddhad i glywed bod y strategaeth hon yn ddim o'r fath. Y syniad yw ein bod i gyd yn ymrwmo i'r Addewid ac yn defnyddio'r symbolau, sy'n cael eu dylunio ar hyn o bryd, i helpu i ddynodi gwybodaeth sydd angen ei rannu gyda chydabod a rhwydweithiau.

Felly cadwch olwg am ddatblygiadau, a dyma'r drafft y gweithiom arno yn ystod y Seminar:

Yr Addewid Cyfathrebu:

Rydym yn addo i rannu ...

i fynd ati'n weithredol i basio ymlaen newyddion neu wybodaeth sydd o ddiddordeb i bobl eraill

Rydym yn addo i ddarparu gwybodaeth priodol ...

i roi gwybodaeth gywir, amserol, hygyrch, cryno ar y ffurf cywir (ddim wastad trwy ebost!)

Rydym yn addo i siarad yn blaen ...

Rydym yn addo i fod yn onest ...

Rydym yn addo i fod yn gywir ...



Rydym yn addo i fod yn gyfredol ...

i wirio a sicrhau bod gwybodaeth yn dal i fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol

Rydym yn addo i fod yn ddiddorol ...

Rydym yn addo i ddweud ...

i gymryd cyfrifoldeb dros rannu gwybodaeth yn ogystal â'i dderbyn

Bydd Gwaith Chwarae Cymru'n defnyddio'r holl **addewidion** yma yn eu cyfathrebiadau o hyn ymlaen.

I ddechrau, rydym yn addo i ddiweddarau gwefan Gwaith Chwarae Cymru'n rheolaidd; sicrhau bod digonedd o ddolenni arno; a sicrhau ei fod yn rhwydd i'w ddefnyddio. Byddwn yn ei adolygu'n rheolaidd a byddwn yn osgoi jargon. Byddwn hefyd yn annog ein cydweithwyr i gyflwyno syniadau a gwybodaeth ar gyfer y wefan – fel bod pob un ohonom yn chwarae rhan weithredol wrth sicrhau bod yr addewid yn gweithio ac i gadw'r llif gwybodaeth i symud.

Hyfforddiant o Safon Chwarae o Safon

Yn ystod y seminar *Gwaith Chwarae: Dyfodol o Safon* fe wnaethom hefyd ymgynghori â'n cydweithwyr yn y sector ynghylch cynigion ar gyfer dyfodol cymwysterau, addysg a hyfforddiant gwaith chwarae o 2011 ymlaen. Bydd hyn yn bwydo i mewn i'r ymgynghoriad SkillsActive a amlinellir yn yr adran newyddion. Cododd pedair neges benodol o'n trafodaethau:

1. Dylai chwarae a'r agwedd gwaith chwarae gael eu cynnwys o fewn strategaethau gweithlu integredig –

gan hyrwyddo gwell dealltwriaeth o chwarae a gwaith chwarae ar draws sectorau.

2. Dylid cael darpariaeth prosesau i gefnogi gwell sgiliau a dysg gwaith chwarae – er enghraifft, efallai y byddai elfen o hyfforddiant gwaith chwarae'n orfodol ar gyfer pob datblygiad gweithlu plant.

3. Mae angen inni ddarbwylo ac ysbrydoli cyflogwyr ac ymarferwyr i flaenoriaethu datblygu'r gweithlu – er enghraifft, fe allem ymchwilio'r

berthynas rhwng gweithwyr chwarae sydd â swyddi amser llawn a throsglwyddiad gwaith chwarae o safon.

4. Mae angen inni gynyddu'r nifer o weithwyr chwarae sy'n ymgymryd â chymwysterau gwaith chwarae – er enghraifft, cynnig cymwysterau gwaith chwarae mewn ysgolion, gweithio tuag at gydraddoldeb tâl ac amodau ar gyfer gweithwyr chwarae â gweithwyr ieuencid, athrawon a gweithwyr crefftus eraill.



Digwyddiadau

20^{ed} Cynhadledd Fyd-eang International Play Therapy

13 – 24 Mai 2010

Marrakech

www.playtherapy.org.uk/WorldCongress/WorldCongress2010home.htm

25^{ain} Cynhadledd Chwarae Fyd-eang yr ICCP - Children's Play: New Goals for the Future

16 – 18 Mehefin 2010

Lisbon

www.fmh.utl.pt/25iccp/

Cynhadledd Flynyddol British Association of Play Therapists

25 – 26 Mehefin 2010

Birmingham

www.bapt.info/conference.htm

Diwrnod Chwarae 2010

4 Awst 2010

www.playday.org.uk

Create Inspiring Playgrounds

29 Medi – 1 Hydref 2010

Karlstad, Sweden

<http://ipaworld.org/category/news-and-events/conferences>

5^{ed} Rhifyn: Child in the City 2010

27 – 29 Hydref 2010

Palazzo dei Congressi, Florence, Yr Eidal

www.childinthecity.com/page/1836

Ariannu

Austin and Hope Pilkington Trust

Mae grantiau o rhwng £1,000 a £10,000 ar gael ar gyfer prosiectau yn y meysydd canlynol ar gyfer 2010: prosiectau plant, ieuencid, yr henoed ac ymchwil meddygol sy'n delio â'r boblogaeth sy'n heneiddio.

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau:

1 Mehefin ac 1 Tachwedd 2010.

www.austin-hope-pilkington.org.uk/

Ysbryd Chwarae Antur

5 – 6 Mai 2010

Gwesty'r Holiday Inn, Caerdydd

Dyma ddegfed pen-blwydd Ysbryd ac mae'r un mor boblogaidd ac erioed gyda phawb o weithwyr chwarae newydd i reolwyr. Mae'n delio gydag agweddau damcaniaethol ac ymarferol gwaith chwarae, fel yr amlinellir yn yr Egwyddorion Gwaith Chwarae – a llawer mwy.

Eleni rydym wedi gwahodd George Broeseliske, sy'n arwain mudiad chwarae sector gwirfoddol yn Rotterdam, i siarad am feysydd chwarae antur fel rhan o ystod o ddarpariaeth chwarae cymunedol mewn 'Dinas Gyfeillgar i Blant'.

Ceir hefyd gyfraniadau gan Stuart Lester, Perry Else, Eddie Nuttall, Ali Wood, Grant Lambie, Bristol Scrapstore Playpods, Jess Milne a llawer mwy, yn ogystal â gweithdai ymarferol cyffrous.

Gellir lawrwytho ffurflenni archebu oddi ar ein gwefan:

www.chwaraecymru.org.uk

Aelodaeth Chwarae Cymru 2010

Er mwyn adnewyddu eich aelodaeth, neu i ddod yn aelod newydd o Chwarae Cymru, cwblhewch y ffurflen aelodaeth sydd ar gael i'w lawrwytho o'n gwefan:

www.chwaraecymru.org.uk

Mae buddiannau ar gyfer aelodau sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru'n cynnwys: gostyngiad ar ffioedd seminarau a chynadleddau; gostyngiadau ar brisiau cyhoeddiadau; gwiriadau rhad ac am ddim gyda'r Biwro Cofnodion Troseddol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn darpariaeth wedi ei reoleiddio; cyfle cynnar i ddarlenn erthyglau o ddiddordeb a thafenni briffio.

Mae buddiannau ar gyfer aelodau sy'n byw neu'n gweithio y tu allan i Gymru'n cynnwys: poster am ddim; e-fwletinâu'n llawn newyddion ariannu a digwyddiadau; cyfle cynnar i ddarlenn erthyglau o ddiddordeb a thafenni briffio.

Aelodaeth IPA –

am safbwynt rhyngwladol

Mae'r International Play Association; promoting the child's right to play (IPA) yn fudiad rhyngddisgyblaethol sy'n dwyn ynghyd bobl o bob proffesiwn sy'n effeithio ar gyfleoedd chwarae plant. Mae enghreifftiau'n cynnwys: gwaith chwarae; iechyd; addysg; gwaith cymdeithasol; plentyndod cynnar; cynllunio dinesig; dylunio tirwedd; cynllunio cymdeithasol; pensaernïaeth; datblygu cymunedol; celf; a gwaith ymchwil.

Mae cangen Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon o'r IPA (EWNl) yn croesawu aelodau newydd a hoffem annog unrhyw un sydd am gynyddu proffil chwarae plant ac sydd am wneud y gorau o Gynhadledd Fyd-eang yr IPA y flwyddyn nesaf, a gynhelir yng Nghaerdydd, i ymuno â ni. Ebstoiwch yr Ysgrifennydd Aelodaeth, Bob Hughes, ar: playeducation@ntlworld.com

Dysgwch fwy am waith rhyngwladol yr IPA ar: www.ipaworld.org